# Staff Cymorth o blith teulu Aelodau'r Cynulliad

10 Rhagfyr 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*A oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn ynglŷn â chyflogi aelodau'r teulu fel staff cymorth gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru. Ar gyfer pob aelod o'r teulu a gaiff eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad, rhowch y manylion hyn ar gyfer pob blwyddyn ers 2007:*

1. *Nifer y negeseuon e-bost a anfonwyd o'u cyfrif e-bost y Cynulliad.*
2. *Nifer yr adegau y defnyddiwyd eu pasys y Cynulliad i fynd i mewn i adeiladau'r Cynulliad.*
3. *Nifer yr adegau y maent wedi logio i mewn i'w cyfrif cyfrifiadurol y Cynulliad.*

Ymhellach i'r neges e-bost a anfonwyd atoch at 4 Rhagfyr, yn egluro wrthych nad oes gennym wybodaeth yn ymwneud â chwestiwn 3, rydym bellach mewn sefyllfa i ymateb i gwestiwn 1 a 2 isod.

1. ***Nifer y negeseuon e-bost a anfonwyd o'u cyfrif e-bost y Cynulliad.***

O dan adran 3(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ('y Ddeddf): '*information is held by a public authority if–*
(a) *it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person*'.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn cadw gwybodaeth mewn cysylltiad â gohebiaeth e-bost o gyfrifon staff yr Aelodau ar ran Aelodau'r Cynulliad. Felly, ni ellir ystyried bod gwybodaeth a gedwir gan y Cynulliad ar ran person arall (ar ran Aelodau'r Cynulliad yn yr achos hwn) wedi'i chadw

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

gan y Cynulliad at ddibenion y Ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all y Cynulliad ddatgelu'r wybodaeth hon.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn nodi na ystyrir Aelodau'r Cynulliad fel 'awdurdodau cyhoeddus' at ddibenion y Ddeddf, ac felly nid oes gorfodaeth arnynt i ddatgelu'r wybodaeth hon.

2. ***Nifer yr adegau y defnyddiwyd eu pasys y Cynulliad i fynd i mewn i adeiladau'r Cynulliad.***

Mae'r wybodaeth y gwnaed cais amdani yn wybodaeth bersonol. Rydym o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i egwyddor diogelu data gyntaf Deddf Diogelu Data 1998. Felly mae'r wybodaeth, fel 'gwybodaeth bersonol', wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn manylu ar y rhesymau pam rydym yn teimlo ei bod yn briodol gweithredu'r eithriad hwn mewn perthynas â'ch cais.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth y gwnaed y cais amdani, sy'n ymwneud â nifer yr adegau y mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad wedi defnyddio eu pasys diogelwch i fynd i mewn i adeiladau'r Cynulliad, wedi'i chynnwys o fewn y diffiniad o wybodaeth bersonol yn adran 1(1) o Ddeddf Diogelu Data 1998. Caiff 'gwybodaeth bersonol' ei diffinio fel '*data which relate to a living individual who can be identified …from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller*'.

Felly mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 lle byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Caiff yr egwyddor sy'n berthnasol yn yr achos hwn ei hamlinellu isod.

Mae'r egwyddor diogelu gwybodaeth gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met."

Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> *"The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."*

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Cynulliad o dan y Ddeddf; eich hawl chi, o dan amodau'r Ddeddf, i gael mynediad at y wybodaeth hon; natur rolau'r unigolion a'u hawl hwy i breifatrwydd; a buddiant y cyhoedd yn sgîl datgelu'r wybodaeth hon.

Ar ôl ystyried, ni allwn weld bod unrhyw fuddiant cyfiawn i'r cyhoedd yn sgîl datgelu gweithgareddau pasys diogelwch aelodau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Defnyddir y wybodaeth honno gan Gomisiwn Cynulliad

Cenedlaethol Cymru i gadw ei adeiladau'n ddiogel ac i sicrhau diogelwch y bobl sy'n gweithio ynddynt. Ni fyddai gan yr aelodau o staff unigol ddisgwyliad rhesymol y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhyddhau ac nid oes ganddynt rôl gyda'r cyhoedd (yn wahanol i gynrychiolydd etholedig, dyweder). Ar ôl ystyried y ffactorau amrywiol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF